PRIVACY POLICY FOR THE DENTAL ACCESS PORTAL

WHY WE USE PERSONAL DATA

The Dental Access Portal provides a central platform for Health Boards to allocate places for routine dental treatment at NHS dental practices across Wales. The new service has been designed, built and hosted by Digital Health and Care Wales (DHCW) and hosted on a Microsoft Power Platform.

Patients provide information to enable their details to be added to the Dental Access Portal. The Dental Access Portal is then used to allocate places for routine dental treatment where spaces become available. A registered person will be able to authenticate to the external site and access their registered details to make amendments or remove themselves from the Dental Access Portal.

Access to the Dental Access Portal is controlled. Only those users with a legitimate reason to access this information (such as to allocate you a dental practice, update your information or for maintenance of the system) will be able to access this information. Access to personal data is only undertaken where it is required for somebody to do their job. Confidentiality and privacy of information is taken seriously and all employees accessing this information are required to be trained on the appropriate use of personal data. Inappropriate access to personal data can result in disciplinary action, including dismissal.

TYPES OF PERSONAL DATA

To register members of the public's details on the Dental Access Portal, we collect, store and use a range of personal data ('processing').

We do not collect or process all of this personal data about all patients all of the time. We only collect and process the personal data necessary for the particular task that we are carrying out. Where possible, information about you will be pseudonymised (replacing identifiers with codes or 'keys') or anonymised (meaning individuals cannot be identified); for example when reports are produced.

The personal data we process includes:

- Full name
- Date of Birth
- NHS Number
- Address
- Contact details such as email address, mobile phone or landline
- Communication language and preferred treatment languages
- Whether you have any special requirements for the purposes of allocating you a dentist that is able to meet these requirements
- The above personal data, where you care for another person

HOW WE USE PERSONAL DATA

Personal data is collected in order for Health Boards to fairly and accurately allocate available NHS dental practice spaces to individuals based on their clinical need, personal requirements and the period of time they have been waiting for NHS dental care.

DHCW shall assume a Controllership responsibility for the data processed within the Data Access Portal, will liaise with Welsh Government, Health Boards, and other appropriate NHS Wales statutory bodies when in consideration of use of the data for the other purposes of processing, dissemination and matters in relation to the use and performance of the system.

HOW WE OBTAIN PERSONAL DATA

Data will be obtained from patients submitting their information as part of their registration to the Dental Access Portal, either directly, via proxy access (such as on behalf of another person) or via a Health Board administrator.

Data will also be obtained from existing waiting lists for NHS dental services owned by Health Boards, which will be uploaded to the new system. Patients whose information is uploaded from an existing list will have the opportunity to amend this information and ask to be removed from the Dental Access Portal.

THE LAWFUL BASIS FOR WHAT WE DO

Data protection legislation requires us to tell you the lawful basis for processing personal data in the way we do. Further information is available from the website of the Information Commissioner's Office. Click **here** for more information.

For the purposes of allocating places for routine dental treatment at NHS dental practices across Wales, we generally rely on the following legal provisions:

- Public task: the processing is necessary to perform a task in the public interest.
- The provision of care: the processing is required for the purposes of health or social care or treatment or the management of health or social care systems.

DHCW have been directed by Welsh Government to undertake work to introduce the Dental Access Portal within primary care in Wales, which will enable Health Boards to allocate patients based on need to appropriate dental practices. Together, alongside DHCW's statutory functions provides DHCW with the authority to collect relevant data for this purpose. For further information about our DHCW's establishment and functions, please see**: Digital Health and Care Wales: establishment and functions | GOV.WALES**

WHO PERSONAL DATA IS SHARED WITH

Personal data is only shared with other organisations where it is necessary and lawful to do so.

Information will be shared with:

- Digital Health and Care Wales - DHCW is a Special Health Authority, part of the NHS Wales family and a trusted partner. DHCW design, built and host the Dental Access Portal.
- Welsh Health Boards – as users of the Dental Access Portal, limited Health Board administrators will have access to the system to manage and allocate places for routine dental treatment at NHS dental practices across Wales.
- Welsh Dental Practices – Welsh Dental Practice employees will receive information via the Welsh Health Board on patients who have been accepted a placement. Welsh Dental Practice employees will not have access to the Dental Access Portal and will only see the personal data of those patients that have accepted the allocation.

The solution uses GOV.notify to send automated communications to patients. These messages are initiated by the Health Board administrator within the Dental Access Portal. Only relevant information will be shared with Gov.Notify Service for the purposes of sending communications to the patient. Patients will only be communicated for the purposes of allocating places for routine dental treatment at NHS dental practices in Wales.

The solution hosted on a Microsoft Power Platform with information stored in the UK. Information submitted to the Gov.UK Notify service is stored on the secure Gov.UK infrastructure in the UK.

Anyone receiving personal data about you is under a legal duty to keep it confidential. We only request, use and share the minimum personal data necessary. We will never sell personal data about you and we will not share it without the appropriate legal authority, or if appropriate to the circumstances, your informed consent.

We may share personal data for other purposes; for example, to allow research to take place where it is in the public interest. This is subject to an approval process. Service planning or commissioning, and audit are some other purposes that may require personal data to be shared. Anonymised or pseudonymised data will be used where possible and uses of personal data are subject to approval processes.

We will share personal data if we are required to do so by law – for example, by court order or to prevent fraud or other crimes.

HOW LONG WE KEEP PERSONAL DATA

We keep personal data for as long as we need to in order to fulfil the purposes for which it was collected, in line with the **Records Management Code of Practice for Health and Social Care** and to comply with our legal and regulatory obligations.

Information within the Dental Access Portal will be retained for 7 years to ensure that information is kept in the event of audit, investigation and liability claims.

SECURITY AND STORAGE OF DATA

We recognise that personal data is very valuable and so we take its security very seriously. The Dental Access Portal system has processes in place to prevent unauthorised access or disclosure of data through the use of:

- Auditing - we keep records of those who access personal data;
- Access controls - members of staff are provided with their own username and password to access personal data;
- Electronic records management - all records are stored confidentially and in secure locations;

- Computer controls - We have complex security controls to ensure our computers cannot be accessed by those not authorised to do so – such as hackers; and
- Encryption - computer devices that hold personal data such as laptops are encrypted in case the device storing the data is lost or stolen

All staff accessing the Dental Access Portal must complete Information Governance training. This training makes staff aware of the importance of the confidentiality and security of personal data and makes clear that they are personally responsible for the security of such data. This training must be completed every two years.

We also make sure that any third parties we deal with keep all personal data they process on our behalf safe and secure.

YOUR RIGHTS

Data Protection legislation provides various individual rights for data subjects including:

- Right to be informed
- Right to access
- Right to rectification
- Right to erasure
- Right to restrict processing
- Right to data portability
- Right to object
- Rights in relation to automated decision making and profiling

Not all of these rights are absolute, which means we often have to balance your wishes against other requirements. For example, if you have been allocated a dentist, it is unlikely that a request from a data subject to delete a record of this would be agreed.

This is because there are other legal reasons that such records need to be kept. We need to retain this information to ensure that we have accurate logs of who may have been allocated. Each request to exercise one of the above rights will be assessed on its merits.

For an explanation of all your rights please see the ICO's guidance, which you can access **here**.

If you wish to exercise any of these rights or have any queries or concerns regarding our processing of personal data about you, please use the contact details provided below, who will be able to direct you to the relevant organisation.

CHANGES TO THIS POLICY

We keep our privacy policy under regular review to ensure it remains relevant, accurate and up to date. Any changes to this privacy policy will apply to you and the information held about you immediately.

CONTACT US

Please contact DHCW's Data Protection Officer for further information regarding this policy, including how to exercise your rights:

Data Protection Officer

Digital Health and Care Wales

Tŷ Glan-yr-Afon

21 Cowbridge Road East

Cardiff

CF11 9AD

DHCW.InformationGovernance@wales.nhs.uk

RIGHT OF COMPLAINT

You have the right to lodge a complaint in relation to this privacy notice or our processing activities with the Information Commissioner's Office, which you can do through the website or their telephone helpline.

https://ico.org.uk/global/contact-us/

DEFINITIONS

Data Protection Officer - Certain categories of organisation, including any public body or authority (except courts in their judicial capacity) are required to designate a suitably qualified Data Protection Officer (DPO). The tasks of the DPO are set out in Article 39 of UK GDPR

Data subject - A 'data subject' is an identified or identifiable natural person.

Data Protection Legislation - The UK GDPR is the retained EU law version of the EU's General Data Protection Regulation (GDPR). It contains the definitions, conditions, principles and rights that apply to the processing of personal data in the UK.

The Data Protection Act 2018 creates specific provisions, such as exemptions allowed by UK GDPR, and incorporates the provisions of EU Data Protection Directive 2016/680 – the Law Enforcement Directive.

Personal data - Any information relating to an identified or identifiable natural person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, physiological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person

Processing - Any operation or set of operations which is performed on personal data or on sets of personal data, whether or not by automated means, such as collection, recording, organisation, structuring, storage, adaptation or alteration, retrieval, consultation, use, disclosure by transmission, dissemination or otherwise making available, alignment or combination, restriction, erasure or destruction

Profiling - Any form of automated processing of personal data consisting of the use of personal data to evaluate certain personal aspects relating to a natural person, in particular to analyse or predict aspects concerning that natural person's performance at work, economic situation, health, personal preferences, interests, reliability, behavior, location or movements

Pseudonymised data / Pseudonymisation - The processing of personal data in such a manner that the personal data can no longer be attributed to a specific data subject without the use of additional information, provided that such additional information is kept separately and is subject to technical and organisational measures to ensure that the personal data are not attributed to an identified or identifiable natural person

Version 1.0 – last updated 07/06/24

POLISI PREIFATRWYDD AR GYFER Y PORTH MYNEDIAD DEINTYDDOL

PAM RYDYM YN DEFNYDDIO DATA PERSONOL

Mae'r Porth Mynediad Deintyddol yn darparu llwyfan canolog i Fyrddau Iechyd ddyrannu lleoedd ar gyfer triniaeth ddeintyddol arferol ym mhractisau deintyddol y GIG ledled Cymru. Cafodd y gwasanaeth newydd ei ddylunio, ei adeiladu a'i gynnal gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC), a chaiff ei gynnal ar Microsoft Power Platform.

Mae cleifion yn darparu gwybodaeth i alluogi eu manylion i gael eu hychwanegu at y Porth Mynediad Deintyddol. Yna defnyddir y Porth Mynediad Deintyddol i ddyrannu lleoedd ar gyfer triniaeth ddeintyddol arferol pan fydd lleoedd ar gael. Bydd person cofrestredig yn gallu dilysu i'r safle allanol a chael mynediad i'w fanylion cofrestredig i wneud diwygiadau neu dynnu eu hunain oddi ar y Porth Mynediad Deintyddol.

Mae mynediad i'r Porth Mynediad Deintyddol yn cael ei reoli. Dim ond defnyddwyr sydd â rheswm dilys dros gael mynediad at y wybodaeth hon (megis i ddyrannu practis deintyddol i chi, diweddaru eich gwybodaeth neu i gynnal a chadw'r system) fydd yn gallu cyrchu'r wybodaeth hon. Dim ond pan fo angen i rywun wneud eu gwaith y ceir mynediad at ddata personol. Mae cyfrinachedd a phreifatrwydd gwybodaeth yn cael eu cymryd o ddifrif ac mae'n ofynnol i bob cyflogai sy'n cyrchu'r wybodaeth hon gael hyfforddiant ar ddefnyddio data personol yn briodol. Gall mynediad amhriodol at ddata personol arwain at gamau disgyblu, gan gynnwys diswyddo.

MATHAU O DDATA PERSONOL

I gofrestru manylion aelodau'r cyhoedd ar y Porth Mynediad Deintyddol, rydym yn casglu, storio a defnyddio ystod o ddata personol ('prosesu').

Nid ydym yn casglu nac yn prosesu'r holl ddata personol hwn am bob claf drwy'r amser. Rydym ond yn casglu ac yn prosesu'r data personol sy'n angenrheidiol ar gyfer y dasg benodol yr ydym yn ei chyflawni. Lle bo'n bosibl, bydd gwybodaeth amdanoch yn cael ei rhoi dan ffugenw (gan ddisodli dynodwyr â chodau neu 'allweddi') neu ei anonymeiddio (sy'n golygu na ellir adnabod unigolion); er enghraifft, pan fydd adroddiadau'n cael eu cynhyrchu.

Mae'r data personol rydym yn ei brosesu yn cynnwys:

- Enw llawn
- Dyddiad geni
- Rhif GIG
- Cyfeiriad
- Manylion cyswllt fel cyfeiriad e-bost, ffôn symudol neu ffôn llinell dir
- Iaith cyfathrebu ac ieithoedd triniaeth dewisol
- A oes gennych unrhyw ofynion arbennig, at ddibenion dyrannu deintydd i chi sy'n gallu bodloni'r gofynion hyn
- Y data personol uchod, lle rydych yn gofalu am berson arall

SUT RYDYM YN DEFNYDDIO DATA PERSONOL

Cesglir data personol er mwyn i Fyrddau Iechyd allu dyrannu lleoedd gyda phractisau deintyddol y GIG sydd ar gael yn deg ac yn gywir i unigolion yn seiliedig ar eu hanghenion clinigol, eu gofynion personol a'r cyfnod o amser y maent wedi bod yn aros am ofal deintyddol y GIG.

Bydd IGDC yn cymryd cyfrifoldeb Rheoli am y data a brosesir o fewn y Porth Mynediad Data, ac yn cysylltu â Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd, a chyrff statudol priodol eraill GIG Cymru wrth ystyried defnyddio'r data at y dibenion eraill o brosesu, rhannu a materion eraill mewn perthynas â defnydd a pherfformiad y system.

SUT RYDYM YN CAEL GAFAEL AR EICH DATA PERSONOL

Ceir data gan gleifion sy'n cyflwyno eu gwybodaeth wrth gofrestru gyda'r Porth Mynediad Deintyddol, naill ai'n uniongyrchol, drwy ddirprwy (e.e. ar ran person arall) neu drwy weinyddwr Bwrdd Iechyd.

Bydd data hefyd yn cael ei gasglu o restrau aros presennol ar gyfer gwasanaethau deintyddol y GIG sy'n eiddo i Fyrddau Iechyd, a fydd yn cael eu lanlwytho i'r system newydd. Bydd cleifion y mae eu gwybodaeth yn cael ei lanlwytho o restr sydd eisoes yn bodoli yn cael cyfle i ddiwygio'r wybodaeth hon a gofyn am gael eu tynnu oddi ar y Porth Mynediad Deintyddol.

Y SAIL GYFREITHLON DROS YR HYN A WNAWN

Mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddweud wrthych y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data personol yn y ffordd yr ydym yn gwneud. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. **Cliciwch yma** am ragor o wybodaeth

At ddibenion dyrannu lleoedd ar gyfer triniaeth ddeintyddol arferol ym mhractisau deintyddol y GIG ledled Cymru, rydym yn dibynnu'n gyffredinol ar y darpariaethau cyfreithiol a ganlyn:

- Tasg gyhoeddus: mae angen prosesu er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd.
- Darparu gofal: mae angen prosesu at ddibenion iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau iechyd neu ofal cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfarwyddo IGDC i wneud gwaith i gyflwyno'r Porth Mynediad Deintyddol o fewn gofal sylfaenol yng Nghymru, a fydd yn galluogi Byrddau Iechyd i ddyrannu cleifion i bractisau deintyddol priodol ar sail angen. Gyda'i gilydd, ochr yn ochr â swyddogaethau statudol IGDC, mae'n rhoi'r awdurdod i IGDC gasglu data perthnasol at y diben hwn. I gael rhagor o wybodaeth am sefydlu a swyddogaethau IGDC, gweler: **Iechyd a Gofal Digidol Cymru: sefydlu a swyddogaethau | GOV. CYMRU**

GYDA PHWY Y RHENNIR DATA PERSONOL

Dim ond gyda sefydliadau eraill lle mae'n angenrheidiol ac yn gyfreithlon i wneud hynny y rhennir data personol.

Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda:

- Iechyd a Gofal Digidol Cymru - Mae IGDC yn Awdurdod Iechyd Arbennig, yn rhan o deulu GIG Cymru ac yn bartner dibynadwy. IGDC sy'n dylunio, adeiladu a chynnal y Porth Mynediad Deintyddol.
- Byrddau Iechyd Cymru – fel defnyddwyr y Porth Mynediad Deintyddol, bydd gweinyddwyr cyfyngedig y Byrddau Iechyd yn gallu defnyddio'r system i reoli a dyrannu lleoedd ar gyfer triniaeth ddeintyddol arferol ym mhractisau deintyddol y GIG ledled Cymru.
- Practisau Deintyddol Cymru – Bydd gweithwyr Practisau Deintyddol yng Nghymru yn derbyn gwybodaeth trwy Fwrdd Iechyd Cymreig am gleifion sydd wedi cael lleoliad. Ni fydd gan weithwyr Practis Deintyddol yng Nghymru fynediad at y Porth Mynediad Deintyddol a byddant ond yn gweld data personol y cleifion hynny sydd wedi derbyn y dyraniad.

Mae'r datrysiad yn defnyddio GOV.Notify i anfon negeseuon awtomataidd at gleifion. Mae'r negeseuon hyn yn cael eu cychwyn gan weinyddwr y Bwrdd Iechyd o fewn y Porth Mynediad Deintyddol. Dim ond gwybodaeth berthnasol fydd yn cael ei rhannu gyda gwasanaeth Gov.Notify at ddibenion anfon negeseuon at y claf. Dim ond at ddibenion dyrannu lleoedd ar gyfer triniaeth ddeintyddol arferol ym mhractisau deintyddol y GIG yng Nghymru y bydd negeseuon yn cael eu hanfon at gleifion.

Mae'r datrysiad yn cael ei gynnal ar Microsoft Power Platform gyda gwybodaeth wedi'i storio yn y DU. Mae gwybodaeth a gyflwynir i wasanaeth Gov.UK Notify yn cael ei storio ar seilwaith diogel Gov.UK yn y DU.

Mae unrhyw un sy'n derbyn data personol amdanoch o dan ddyletswydd gyfreithiol i'w gadw'n gyfrinachol. Dim ond y data personol angenrheidiol y byddwn yn gofyn amdani, yn ei defnyddio ac yn ei rhannu. Ni fyddwn byth yn gwerthu data personol amdanoch ac ni fyddwn yn ei rannu heb yr awdurdod cyfreithiol priodol nac, os yw'n briodol i'r amgylchiadau, eich caniatâd gwybodus.

Efallai y byddwn yn rhannu data personol at ddibenion eraill; er enghraifft, i ganiatáu i ymchwil ddigwydd lle mae er budd y cyhoedd. Mae hyn yn amodol ar broses gymeradwyo. Mae cynllunio neu gomisiynu gwasanaethau, ac archwilio yn rhai dibenion eraill a allai olygu bod angen rhannu data personol. Bydd data dienw neu dan ffugenw yn cael ei ddefnyddio lle bo'n bosibl ac mae'r defnydd o ddata personol yn destun prosesau cymeradwyo.

Byddwn yn rhannu data personol os yw'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith – er enghraifft, drwy orchymyn llys neu i atal twyll neu droseddau eraill.

AM BA MOR HIR Y BYDDWN YN CADW'CH DATA PERSONOL?

Rydym yn cadw data personol am gyhyd ag sydd angen er mwyn cyflawni'r dibenion y'i casglwyd ar eu cyfer, yn unol â'r **Cod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ac i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol.

Bydd gwybodaeth yn y Porth Mynediad Deintyddol yn cael ei chadw am 7 mlynedd i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chadw ar gyfer unrhyw hawliadau archwilio, ymchwilio ac atebolrwydd.

DIOGELWCH A STORIO DATA

Rydym yn cydnabod bod data personol yn werthfawr iawn, ac rydym yn cymryd diogelwch data o ddifrif. Mae gan y system Porth Mynediad Deintyddol brosesau ar waith i atal mynediad neu ddatgeliad data heb awdurdod trwy:

- Archwilio - rydym yn cadw cofnodion o'r rhai sy'n cyrchu data personol;
- Rheolaethau mynediad - rhoddir enw defnyddiwr a chyfrinair i aelodau staff i gael mynediad at ddata personol;
- Rheoli cofnodion electronig - cedwir yr holl gofnodion yn gyfrinachol ac mewn lleoliadau diogel;
- Rheolaethau cyfrifiadurol - Mae gennym reolaethau diogelwch cymhleth i sicrhau na all ein cyfrifiaduron gael eu defnyddio gan y rhai nad ydynt wedi'u hawdurdodi i wneud hynny – fel hacwyr; ac
- Amgryptio - mae dyfeisiau cyfrifiadurol sy'n dal data personol fel gliniaduron yn cael eu hamgryptio rhag ofn i'r ddyfais sy'n storio'r data gael ei cholli neu ei dwyn

Rhaid i bob aelod o staff sy'n defnyddio'r Porth Mynediad Deintyddol gwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn gwneud staff yn ymwybodol o bwysigrwydd cyfrinachedd a diogelwch data personol ac yn ei gwneud yn glir eu bod yn bersonol gyfrifol am ddiogelwch data o'r fath. Rhaid cwblhau'r hyfforddiant hwn bob dwy flynedd.

Rydym hefyd yn sicrhau bod unrhyw drydydd parti yr ydym yn delio ag ef yn cadw'r holl ddata personol y maent yn ei brosesu ar ein rhan yn ddiogel.

EICH HAWLIAU

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu hawliau unigol amrywiol ar gyfer testunau data, gan gynnwys:

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gael mynediad
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i gael gwared
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Yr hawl i wrthwynebu
- Hawliau yn ymwneud â phroffilio a phenderfyniadau a wneir yn awtomatig

Nid yw'r holl hawliau hyn yn absoliwt, sy'n golygu bod yn rhaid i ni gydbwyso eich dymuniadau yn aml yn erbyn gofynion eraill. Er enghraifft, os dyrannwyd deintydd i chi, mae'n annhebygol y byddai cais gan destun data i ddileu cofnod o hyn yn cael ei gytuno. Y rheswm am hyn yw bod rhesymau cyfreithiol eraill dros gadw cofnodion o'r fath. Mae angen i ni gadw'r wybodaeth hon i sicrhau bod gennym gofnodion cywir o bwy sydd wedi'u dyrannu. Bydd pob cais i arfer un o'r hawliau uchod yn cael ei asesu yn ôl ei deilyngdod.

I gael esboniad o'ch holl hawliau, gweler canllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, y gallwch eu gweld **yma**.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch ein gwaith o brosesu data personol amdanoch, defnyddiwch y manylion cyswllt isod, a fydd yn gallu eich cyfeirio at y sefydliad perthnasol.

NEWIDIADAU I'R POLISI HWN

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol, yn gywir ac yn gyfredol. Bydd unrhyw newidiadau i'r polisi preifatrwydd hwn yn berthnasol ar unwaith i chi a'r wybodaeth a gedwir amdanoch.

CYSYLLTU Â NI

Cysylltwch â Swyddog Diogelu Data IGDC i gael rhagor o wybodaeth am y polisi hwn, gan gynnwys sut i arfer eich hawliau:

Swyddog Diogelu Data

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Tŷ Glan-yr-Afon

21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen

Caerdydd

CF11 9AD

DHCW.InformationGovernance@wales.nhs.uk

HAWL I GWYNO

Mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn mewn perthynas â'r hysbysiad preifatrwydd hwn neu ein gweithgareddau prosesu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a gallwch wneud hyn drwy'r wefan neu drwy ffonio eu llinell gymorth.

https://ico.org.uk/global/contact-us/

DIFFINIADAU

Swyddog Diogelu Data - Mae'n ofynnol i rai categorïau o sefydliadau, gan gynnwys unrhyw gorff neu awdurdod cyhoeddus (ac eithrio llysoedd yn eu swyddogaeth farnwrol) benodi Swyddog Diogelu Data â chymwysterau addas. Mae tasgau'r Swyddog Diogelu Data wedi'u nodi yn Erthygl 39 o GDPR y DU.

Testun data - Unigolyn adnabyddedig neu adnabyddadwy yw 'testun data'.

Deddfwriaeth Diogelu Data - GDPR y DU yw fersiwn cyfraith yr UE a ddargedwir o Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr UE. Mae'n cynnwys y diffiniadau, yr amodau, yr egwyddorion a'r hawliau sy'n berthnasol i brosesu data personol yn y DU.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn creu darpariaethau penodol, megis eithriadau y mae GDPR y DU yn eu caniatáu, ac mae'n ymgorffori darpariaethau Cyfarwyddeb Diogelu Data'r UE 2016/680 - y Gyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith.

Data personol - Unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol ('testun data') adnabyddedig neu adnabyddadwy; person naturiol adnabyddadwy yw un y gellir ei adnabod, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig drwy gyfeirio at adnabyddwyr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, adnabyddwr ar-lein neu un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth ffisegol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw.

Prosesu - Unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau a wneir i ddata personol neu i setiau o ddata personol, p'un ai trwy ddulliau awtomataidd ai peidio, megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu newid, adalw, ymgynghori, defnyddio, datgelu trwy drosglwyddo, lledaenu neu fel arall sicrhau eu bod ar gael, alinio neu gyfuno, cyfyngu, dileu neu ddinistrio.

Proffilio - Unrhyw fath o brosesu data personol yn awtomataidd sy'n cynnwys defnyddio data personol i werthuso rhai agweddau personol sy'n ymwneud â pherson naturiol, yn enwedig i ddadansoddi neu ragweld agweddau sy'n ymwneud â pherfformiad y person naturiol hwnnw yn y gwaith, sefyllfa economaidd, iechyd, dewisiadau personol, buddiannau, dibynadwyedd, ymddygiad, lleoliad neu symudiadau

Data dan ffugenw / Rhoi dan ffugenw - Prosesu data personol yn y fath fodd fel na ellir priodoli'r data personol mwyach i destun data penodol heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, ar yr amod bod gwybodaeth ychwanegol o'r fath yn cael ei chadw ar wahân ac yn destun mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau nad yw'r data personol yn cael ei briodoli i berson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy

Fersiwn 1.0 – diweddarw